



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG46436

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Casglu deunyddiau gwastraff ar wahân ar gyfer ailgylchu – cod ymarfer Cymru

Cynigion ar gyfer cod ymarfer sy'n darparu canllawiau ymarferol ar sut i fodloni'r gofynion gwahanu yng Nghymru ar gyfer deunyddiau gwastraff y gellir eu hailgylchu o safleoedd annomestig fel y cynigir eu nodi yn Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023.

Dyddiad Cyhoeddi: Ebrill 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2023 ISBN Digidol

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad o'r enw 'Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru'. Wrth ddarparu trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fel y cawsant eu derbyn, dylid nodi bod rhai yn cynnwys anghywirdebau yn nhermau'r cynigion polisi, sy'n deillio o gamddealltwriaeth o'r rheoliadau neu'r ddeddfwriaeth sy'n sylfaen iddynt. Gellir gweld manylion y cynigion yma: [Casglu deunyddiau gwastraff ar wahân ar gyfer ailgylchu – cod ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU](#), a bydd yr wybodaeth a dderbyniwyd yn cael ei defnyddio i oleuo cyfathrebu ac arweiniad ar y diwygiadau yn y dyfodol i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth wrth symud ymlaen.

Gweithredu Angenrheidiol

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Mwy o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd gwahanol o'r ddogfen hon ar gael.

Manylion cysylltu

I gael mwy o wybodaeth:

Yr Is-adran Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: EffeithlonrwyddAdnoddauAcEconomiGylchol@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru: [Casglu deunyddiau gwastraff ar wahân ar gyfer ailgylchu: cod ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU](#)

Cynnwys

Cynnwys.....	3
1. Cyflwyniad	4
2. Yr hyn y gwnaethom ei ofyn i chi	6
3. Yr hyn a ddwedoch wrthym ni.....	10
4. Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud nesaf.....	36
Atodiad 1: Rhestr o ymatebwyr	37

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad o'r enw 'Casglu deunyddiau gwastraff ar wahân ar gyfer ailgylchu – cod ymarfer Cymru'. Wrth ddarparu trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fel y cawsant eu derbyn, dylid nodi bod rhai yn cynnwys anghywirdebau yn nhermau'r cynigion polisi, sy'n deillio o gamddealltwriaeth o'r rheoliadau neu'r ddeddfwriaeth sy'n sylfaen iddynt. Gellir gweld manylion y cynigion yma: <https://www.llyw.cymru/casglu-deunyddiau-gwastraff-ar-wahan-ar-gyfer-ailgylchu-cod-ymarfer-cymru>, a bydd yr wybodaeth a dderbyniwyd yn cael ei defnyddio i oleuo cyfathrebu ac arweiniad ar y diwygiadau yn y dyfodol i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth wrth symud ymlaen.

1.1 Cefndir

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 12 wythnos rhwng 23 Tachwedd 2022 a 15 Chwefror 2023. Fe'i lluniwyd i geisio barn rhanddeiliaid ar y cod ymarfer ("y cod") ac a yw'n darparu digon o ganllawiau ymarferol ar sut i fodloni'r gofynion gwahanu yng Nghymru ar gyfer deunyddiau gwastraff y gellir eu hailgylchu o safleoedd annomestig fel y bwriedir eu nodi yn Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023. Roedd hefyd yn gofyn am farn ar gyflwyno ffrydiau gwastraff penodol fesul cam.

Bydd y cod yn cael ei gyhoeddi o dan adran 45AB Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("EPA") mewn perthynas â chasglu gwastraff ar wahân o dan adran 45AA Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd.

Bydd y cod yn cefnogi Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff arfaethedig (Cymru) 2023 a fydd yn gymwys i eiddo annomestig.

Bydd y rheoliadau newydd arfaethedig yn mynnu'r canlynol:

- Deiliaid eiddo annomestig (gan gynnwys busnesau, elusennau a chyrff y sector cyhoeddus) i gyflwyno deunyddiau ailgylchadwy penodol i'w casglu ar wahân i'w gilydd ac ar wahân i wastraff gweddilliol;
- Y rhai sy'n casglu'r deunyddiau i'w casglu ar wahân a'u cadw ar wahân;
- Gwahardd deunyddiau y gellir eu hailgylchu a gesglir ar wahân rhag cael eu llosgi a'u cludo i safle tirlenwi;
- Gwahardd yr holl wastraff coed o safleoedd tirlenwi;
- Cychwyn gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd o eiddo annomestig;
- Darparu bod sancsiynau sifil ar gael ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig â'r gofynion uchod.

Yn dilyn ymgynghori ar opsiynau ar gyfer y rheoliadau yn 2019, mae cynigion diwygiedig ar gyflwyno'n raddol y gofynion sy'n ymwneud ag offer trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE) a thecstilau wedi'u cynnwys yn y cod yn ogystal â chaniatáu mwy o amser i ysbytai gyflwyno deunyddiau ailgylchadwy penodedig i'w casglu. Cynhwysir cynigion ar gyfer trin cartonau ac eitemau tebyg hefyd.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn sail i ddrafft terfynol y cod a Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 arfaethedig.

2. Yr hyn y gwnaethom ei ofyn i chi

2.1 Yr hyn sy'n cael ei gynnig

Mae'r cod yn nodi canllawiau ymarferol ar sut i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a osodir ar:

- i) meddianwyr eiddo annomestig (gan gynnwys busnesau, y sector cyhoeddus ac elusennau) i gyflwyno deunyddiau gwastraff penodol ailgylchadwy i'w casglu mewn ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân;
- ii) y rhai sy'n casglu, neu'n trefnu i gasglu, gwastraff i'w gasglu, neu'n trefnu i gasglu, y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân; a'r
- iii) y rhai sy'n casglu, yn derbyn, yn cadw, yn trin neu'n cludo gwastraff i beidio â chymysgu'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy a gasglwyd ar wahân gydag unrhyw ffrwd wastraff ailgylchadwy arall neu gyda mathau eraill o wastraff neu sylweddau neu eitemau eraill.

Mae angen i ddeunyddiau gwastraff ailgylchadwy penodedig, gan gynnwys isffracsiynau, gael eu gwahanu ar gyfer eu casglu, eu casglu ar wahân, a'u cadw ar wahân ar ôl eu casglu, a rhaid gwneud hynny yn y chwe ffrwd gwastraff ailgylchadwy canlynol, o leiaf:

- i) bwyd a gynhyrchir gan eiddo sy'n cynhyrchu mwy na 5kg o wastraff bwyd yr wythnos;
- ii) papur a cherdyn;
- iii) gwydr;
- iv) metel, plastig a chartonau a deunydd pecynnu cyfansawdd ffeibr-plastig arall o gyfansoddiad tebyg;
- v) offer trydanol ac electronig gwastraff bach heb ei werthu (sWEEE); a
- vi) tecstilau heb eu gwerthu.

Cyfeirir at y dyletswyddau hyn gyda'i gilydd fel y 'gofynion gwahanu'.

Ar ben hynny, ceir gwaharddiadau ategol ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd o eiddo annomestig, gwaharddiadau ar ffrydiau gwastraff ailgylchadwy penodol ar wahân sy'n mynd i safleoedd llosgi a safleoedd tirlenwi a gwaharddiad ar yr holl wastraff coed sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

Mae methu â chydymffurfio â'r gofynion gwahanu yn drosedd heb derfyn uchaf ar bŵer y llysoedd i ddirwyo. Gellir rhoi sancsiwn sifil am fethu â chydymffurfio â'r gofynion gwahanu, yn lle erlyn.

Mae'r cod yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn unrhyw achos cyfreithiol a rhaid i'r llys ei ystyried wrth benderfynu ar unrhyw gwestiwn y mae'n ymddangos i'r llys ei fod yn berthnasol.

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y gofynion gwahanu.

Cynigion diwygiedig ar y bwriad i gyflwyno'n raddol y gofynion sy'n ymwneud â sWEEE a thecstilau

Codwyd pryderon ynghylch ymarferoldeb ac effeithiolrwydd cynnwys gofyniad yn y rheoliadau ar gyfer cyflwyno a chasglu sWEEE a thecstilau ar wahân o'r adeg y daw'r rheoliadau i rym.

Y rheswm am hyn yw nad yw casglu sWEEE a thecstilau ar garreg y drws wedi'i sefydlu'n eang eto. O ran tecstilau, mae marchnad ailbrosesu'r DU yn dal yn gymharol anaeddfed gyda dibyniaeth fawr ar allforio, llosgi a thirlenwi.

Mewn ymateb, bwriedir cyflwyno gofynion gwahanu a chasglu ar gyfer sWEEE a thecstilau o eiddo annomestig yn raddol ar ôl y dyddiad dod i rym, hyd at ddwy flynedd a thair blynedd yn y drefn honno. Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaethau casglu, aildddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu gwastraff i baratoi eu hunain ac i alinio â'r newidiadau arfaethedig yn y rheoliadau cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig ar gyfer WEEE ac, o bosibl, ar gyfer tecstilau.

Fodd bynnag, bydd yn rhaid cyflwyno a chasglu sWEEE heb eu gwerthu a thecstilau heb eu gwerthu ar wahân i'w hailgylchu pan ddaw'r rheoliadau i rym, er y dylid rhoi blaenoriaeth i'w hailwerthu neu eu rhoi i elusennau yn unol â'r hierarchaeth gwastraff statudol¹.

Y cynnig yw y bydd yr holl sWEEE sy'n cael ei gasglu ar wahân (gan gynnwys rhai heb eu gwerthu) a'r holl decstilau a gesglir ar wahân (gan gynnwys rhai heb eu gwerthu) yn cael eu gwahardd rhag mynd i safleoedd tirlenwi, a bydd yr holl sWEEE sy'n cael ei gasglu ar wahân a'r holl decstilau heb eu gwerthu a gesglir ar wahân yn cael eu gwahardd rhag mynd i safleoedd tirlenwi ar unwaith pan fydd y rheoliadau'n dod i rym.

Eglurhad ynghylch y bwriad i drin cartonau

Yn dilyn yr ymgynghoriad blaenorol yn 2019, mae ymgysylltu ar y dosbarthiad arfaethedig gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant cartonau, casglwyr gwastraff ac ailbroseswyr a'r Waste and Resources Action Programme (WRAP) wedi nodi mai casglu cartonau, a pheccynnu tebyg, yn y ffrwd metel a phlastig sydd orau, yn hytrach nag yn y ffrwd papur a cherdyn. Dyma'r ateb gorau ar gyfer gwahanu cartonau wedyn ar gyfer eu hailbrosesu, ac nid yw'n debygol o arwain at halogi'r metelau neu'r ffrydiau plastig yn sylweddol wrth ddioli mewn gorsafoddd didoli. Rydym felly'n cynnig bod cartonau (a deunydd pecynnu ffibr-cyfansawdd tebyg) yn cael eu rhoi yn y ffrwd deunyddiau metelau a phlastigau.

Cynigion diwygiedig ynghylch y bwriad i gyflwyno'n raddol y gofyniad i ysbytai gyflwyno deunyddiau ailgylchadwy penodol i'w casglu

Mewn ymateb i ymgysylltu â'r sector iechyd yn dilyn yr ymgynghoriad blaenorol, cynigir y bydd gan ysbytai ddwy flynedd ychwanegol i gydymffurfio ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym er mwyn adlewyrchu cymhlethdod ychwanegol cydymffurfio â'r gofynion gwahanu mewn wardiau a theatrau llawdriniaeth. Bydd y gwaharddiad ar anfon

¹ <https://www.llyw.cymru/arweiniad-ynghylch-gweithredur-hierarchiaeth-gwastraff-canllaw>

gwastraff bwyd i garthffos yn gymwys i ysbytai o'r diwrnod cyntaf y daw'r rheoliadau i rym.

2.2 Y cwestiynau a ofynnwyd gennym

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol:

- C1 Nodwch pa sector rydych chi'n ei gynrychioli.
- C2 Pa mor ddefnyddiol yw'r cod wrth esbonio'r gofynion gwahanu?
- C3 Ydych chi'n deall pa fathau o eiddo sydd wedi'u cynnwys o dan y rheoliadau gwahanu arfaethedig?
- C4 Ydych chi'n deall yr esboniad o 'meddiannydd', y mae gofyn iddo gydymffurfio â'r gofynion gwahanu?
- C5 Mae rhai eithriadau i'r gofynion gwahanu sy'n cael eu hesbonio yn y cod, er enghraifft am resymau diogelwch cenedlaethol, gwastraff peryglus neu glinigol neu i ddiogelu cyfrinachedd neu ddata personol. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw feysydd eraill y dylid eu heithrio o'r gofynion gwahanu?
- C6 Ydy cynnwys gwybodaeth am ddeddfwriaeth atodol arall sy'n gweithredu ochr yn ochr â'r rheoliadau (e.e., dyletswydd gofal) yn ddefnyddiol?
- C7 Ydych chi'n fodlon â'r diffiniadau a roddir yn yr eirfa?
- C8 Ydych chi'n fodlon â'r esboniad o'r is-ffracsiynau y dylid eu rhoi mewn ffrydiau ar wahân?
- C9 Rydym yn cynnig eithrio'r rhan fwyaf o sWEEE (ar wahân i sWEEE heb eu gwerthu) o'r gofynion gwahanu i ddechrau ond rydym yn bwriadu eu cynnwys hyd at ddwy flynedd ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym. Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn?
- C10 Rydym yn cynnig eithrio'r rhan fwyaf o decstilau (ar wahân i decstilau heb eu gwerthu) o'r gofynion gwahanu i ddechrau ond rydym yn bwriadu eu cynnwys hyd at dair blynedd ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym. O ganlyniad, rydym yn cynnig hefyd peidio â bwrw ymlaen â'r gwaharddiad arfaethedig ar anfon tecstilau a gasglwyd ar wahân (ar wahân i decstilau heb eu gwerthu) i gael eu llosgi yn y lle cyntaf, ond yn bwriadu gwneud hynny o fewn yr un amserlen. Ydych chi'n cytuno a'r dull gweithredu hwn?
- C11 Ein bwriad yw cynnwys cartonau yn y ffrwd metel a phlastig. Ydych chi'n cytuno mai dyma'r ffrwd orau i osod cartonau ynddi?
- C12 A ddylai'r ffrwd ddeunyddiau hon (h.y., metel/plastig/cartonau) hefyd gynnwys pecynnu cyfansawdd ffeibr-plastig eraill o gyfansoddiad tebyg i gartonau'? Bwriad y geiriad hwn yw cwmpasu deunyddiau fel cynwysyddion papur caled (er enghraifft, pecynnu a ddefnyddir ar gyfer creision) a chwpanau a ddefnyddir ar gyfer diodydd poeth?
- C13 Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn ar gyfer ysbytai?
- C14 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cod neu'r rheoliadau arfaethedig nad ydynt yn cael sylw uniongyrchol yn y cwestiynau uchod, amlinellwch y rhain yn y ffurflen ymateb isod.

2.3 Yr ymatebwyr

Cafwyd cyfanswm o 95 o ymatebion gan 79 o sefydliadau gwahanol yn ogystal ag ymatebion a gyflwynwyd yn unigol. Cyflwynodd rhai sefydliadau fwy nag un ymateb, neu cafwyd ymatebion ar wahân gan wahanol ganghennau o'r un sefydliad. Nid oedd rhai cyflwyniadau'n cynnwys enw sefydliad neu fe'u cyflwynwyd yn bersonol. Cyflwynodd pum sefydliad sy'n cynrychioli iechyd yr amgylchedd ymatebion union yr un fath. Ceir rhestr o'r rhai a ymatebodd (ac a gytunodd i rannu manylion) yn Atodiad 1 a cheir crynodeb ohonynt yn ôl y math o sefydliad yn Nhabl 1.

Tabl 1: Nifer yr ymatebion yn ôl math o sefydliad (atebion i Gwestiwn 1)

Math o Sefydliad	Nifer yr Ymatebion	Canran Ymateb (%)
Busnes	21	22.1%
Sefydliad trydydd sector	9	9.5%
Sefydliad sector cyhoeddus	19	20.0%
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	10	10.5%
Cwmni rheoli gwastraff	11	11.6%
Dim o'r uchod	25	26.3%
CYFANSWM	95	100.0%

Roedd cynrychiolaeth gymharol uchel yn y categori 'Dim un o'r uchod' ac roedd yn cynnwys Cymdeithasau Masnach yn bennaf, gyda chynrychiolwyr o brifysgolion ac unigolion.

3. Yr hyn a ddwedoch wrthym ni

3.1 Argraffiadau cyffredinol

Roedd cytundeb cyffredinol â'r egwyddorion yr oedd y cynigion yn ceisio eu cyflawni, er enghraifft, y dylai busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ailgylchu mwy o ddeunydd o ansawdd uchel. Fodd bynnag, roedd yr adborth manwl ar rannau o'r cod yn dangos bod sectorau o hyd lle nad yw busnesau'n glir ynghylch y gofynion, a hefyd roedd y diwydiant rheoli gwastraff ac Awdurdodau Lleol wedi tynnu sylw at yr amserlenni cymharol fyr sydd ar ôl hyd at y dyddiad gweithredu arfaethedig a allai greu heriau gweithredol o ran casglu a phrosesu. Cododd Cymdeithasau Masnach bryderon deunydd-benodol y dylid eu hystyried hefyd.

3.1 Trosolwg o'r ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad.

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion ac yn cyflwyno'r nifer yr ymatebion i bob cwestiwn caeedig gan gynnwys ymatebion fel "Ydy", "Nac ydy", "Cytuno", "Anghytuno", "Ddim yn gwybod". Mewn rhai achosion, ni roddwyd ateb ac mae hyn hefyd yn cael ei gofnodi fel 'heb ymateb'. Ar gyfer pob cwestiwn, roedd blwch wedi'i ddarparu i ymatebwyr egluro'r ateb a roddwyd ac mae crynodeb o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion hefyd yn cael ei roi isod.

Cynhaliwyd dadansoddiad ystadegol fel rhan o'r asesiad o'r ymatebion i bennu'r gyfran a ymatebodd i bob cwestiwn yn ogystal â nodi lle'r oedd yr ymatebion ar lefel sefydliad yn wahanol i'r ymateb gan y mwyafrif.

Mae'r prif themâu sy'n deillio o'r ymatebion wedi'u crynhoi isod.

Gofynion Gwahanu

Cwestiwn 2: Pa mor ddefnyddiol yw'r cod wrth esbonio'r gofynion gwahanu?

O dan y gofynion gwahanu arfaethedig, mae gan ddeiliaid eiddo annomestig, gan gynnwys busnesau, a'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, ddyletswydd pan fyddant yn cyflwyno gwastraff i'w gasglu i sicrhau bod rhai deunyddiau gwastraff ailgylchadwy yn cael eu cyflwyno ar wahân mewn ffrydiau gwastraff ailgylchadwy penodol. Mae'r deunyddiau y bydd angen eu casglu ar wahân yn cael eu crynhoi yn adran 2.1.

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 2 yn cael eu dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a'u crynhoi yn Nhabl 2.

Tabl 2: Ymatebion yn ôl math o sefydliad, i Gwestiwn 2 - Pa mor ddefnyddiol yw'r cod wrth esbonio'r gofynion gwahanu?

Math o Sefydliad	i) Defnyddiol iawn	ii) Yn ddefnyddiol ar y cyfan	iii) Rhai adrannau'n ddefnyddiol/eraill ddim mor ddefnyddiol	iv) Ddim yn ddefnyddiol iawn	v) Ddim yn ddefnyddiol o gwbl	CYFANSWM	Heb Ateb
Busnes	8	6	5	2	0	21	0
Sefydliad trydydd sector	1	5	0	1	1	8	1
Sefydliad sector cyhoeddus	1	16	0	0	0	17	2
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	6	3	1	0	0	10	0
Cwmni rheoli gwastraff	0	7	3	1	0	11	0
Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)	3	8	5	3	0	19	6
CYFANSWM	19	45	14	7	1	86	9
Canran (%)	22.1%	52.3%	16.3%	8.1%	1.2%	100.0%	

Roedd y rhan fwyaf (tua 74%) o'r ymatebwyr o'r farn bod y cod naill ai'n "ddefnyddiol iawn" neu'n "ddefnyddiol ar y cyfan" wrth egluro'r gofynion gwahanu.

Roedd y rhai (tua 24%) a ymatebodd "Ddim yn ddefnyddiol iawn" neu "Nid oedd rhai adrannau'n ddefnyddiol" yn nodi'r materion canlynol:

- Awgrymodd un Gymdeithas Fasnach fod angen eglurhad pellach o'r mathau o blastig derbyniol, gan ganolbwyntio ar blastig y gellir ei ailgylchu ar hyn o bryd. Roedd hyn fel ei bod mor hawdd â phosibl i berchnogion busnes ei ddeall, ac awgrymwyd hefyd y dylid defnyddio enghreifftiau o blastig sy'n benodol i fusnesau ac nid aelwydydd.
- Yn gysylltiedig â'r ffocws ar blastig y gellir ei ailgylchu ar hyn o bryd, nodwyd y byddai angen diweddarau'r rhestr o blastig derbyniol yn Atodiad 1 i 6 dros amser, er enghraifft ar gyfer plastigau meddal.
- Dylid cynnwys caeadau plastig.
- Byddai rhagor o esboniad o'r gwahanol fathau o ddeunydd ym mhob categori yn helpu busnesau, ac mae angen cyfathrebu dilynol i'w gwneud yn hawdd i bob busnes ddeall yr is-ffracsiynau deunyddiau. Mae 'cyfansoddion ffibr-blastigau' yn un is-fath o ddeunydd sydd angen esboniad pellach, a hefyd nid oedd un cwmni rheoli gwastraff yn cytuno y dylid cynnwys y ffraciwn deunydd hwn gyda'r metelau, y plastigau a'r cartonau.
- Codwyd pryderon gan y sector rheoli gwastraff ynghylch nifer a maint y cynwysyddion a allai fod yn ofynnol gan gwsmeriaid a'r amser arweiniol sy'n gysylltiedig ag asesu gofynion busnes a chael cynwysyddion newydd yn eu

Ile. Awgrymwyd y byddai lefel de minimis o fudd i'r holl ffracsiynau deunyddiau (mae hyn yn berthnasol i wastraff bwyd yn unig ar hyn o bryd), a fyddai'n arbennig o ddefnyddiol i safleoedd lle nad oes llawer o le ar gyfer cynwysyddion ychwanegol. Gall fod yn anodd gweithredu dull 'un ateb i bawb' yn ymarferol.

- Mae awgrymiadau pellach gan nifer o gwmnïau rheoli gwastraff yn ymwneud â'r posibilrwydd o gael esemptiadau adfer a gwaredu os oes "marchnadoedd ailgylchu annigonol neu afresymol o ddrud" neu os oes argyfwng cenedlaethol neu nad yw marchnadoedd ailgylchu'n cael eu datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd, er enghraifft ar gyfer tecstilau, er mwyn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd o fewn y cod.
- Cyfeiriodd nifer o fusnesau yn y sector twristiaeth at gost yr arwyddion ychwanegol sydd eu hangen i hysbysu'r cyhoedd ynghylch gofynion gwahanu.
- Nodwyd bod sawl math o ddeunydd angen eu diffinio neu eu hesbonio ymhellach o ran sut dylid eu trin, yn cynnwys gwastraff gofal iechyd, fel cyfarpar diogelu personol (PPE) a phadiau anymataliaeth (lle nad yw ailgylchu ar gael yn gyson), cawl (eglhurhad ynghylch a yw'n wastraff bwyd neu wastraff hylif), sWEEE a thecstilau heb eu gwerthu.
- Un maes a allai beri dryswch ynghylch gwahanu oedd sut i wahaniaethu rhwng cwpan papur gyda leinin plastig neu leinin y gellir ei gompostio a fyddai'n arwain at broblemau prosesu a gwahanu a chostau uwch posibl.

A oes rheidrwydd arnaf i gydymffurfio â'r gofynion gwahanu?

Cwestiwn 3: Ydych chi'n deall pa fathau o eiddo sydd wedi'u cynnwys o dan y rheoliadau gwahanu arfaethedig?

Mae'r cod yn rhoi enghreifftiau dangosol o'r mathau o eiddo sy'n dod o dan y gofynion gwahanu.

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 3 yn cael eu dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a'u crynhoi yn Nhabl 3.

Tabl 3: Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, i Gwestiwn 3 - Ydych chi'n deall pa fathau o eiddo sydd wedi'u cynnwys o dan y rheoliadau gwahanu arfaethedig?

Math o Sefydliad	i) Ydw	ii) Nac ydw	iii) Dim barn	Cyfanswm	Heb Ateb
Busnes	16	2	2	20	1
Sefydliad trydydd sector	6	2	0	8	1
Sefydliad sector cyhoeddus	11	5	0	16	3
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	8	2	0	10	0
Cwmni rheoli gwastraff	11	0	0	11	0
Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)	12	5	2	19	6
CYFANSWM	64	16	4	84	11
Canran (%)	76.2%	19.0%	4.8%	100.0%	

Dyweddodd y rhan fwyaf (tua 76%) o'r ymatebwyr "Ydw" eu bod yn deall pa adeiladau sy'n dod o dan y rheoliadau gwahanu arfaethedig.

Roedd y rheini (19%) a ymatebodd "Nac ydw" yn egluro pam eu bod yn teimlo nad oedd hynny'n glir, ac yn rhestru'r gweithgareddau neu'r categorïau eiddo lle nad oedd y ddarpariaeth yn y rheoliadau yn ddigon clir neu lle'r oedd angen rhagor o arweiniad. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Cwmni adeiladu sy'n cynhyrchu gwastraff ar safle sy'n gartref.
- Adeiladau amlddeiliadaeth – meddiannaeth gan fusnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, pwy sy'n gyfrifol am wahanu? Y meddianwyr neu'r landlord?
- Pob elusen neu elusennau penodol?
- Eiddo preswyl ac amhreswyl cymysg ar safle – sut bydd hi'n bosibl i ddefnyddwyr wahaniaethu rhwng y ddwy system?
- Gall meysydd parcio a thoiledau cyhoeddus, fel ardrethi busnes, fod yn daladwy yn yr eiddo hwn. Byddai'n well i'r mathau hyn o leoliadau gael eu heithrio yn yr un ffordd ag y mae cynwysyddion stryd yn cael eu heithrio o'r rheoliadau.
- Clinigau, canolfannau iechyd, canolfannau brechu ac ysbytai – byddai'n anodd gwahanu rhai o'r adeiladau hyn.
- A yw llety gwyliau Airbnb yn cael ei gynnwys neu ei eithrio?
- Mae angen bod yn glir yn y diffiniad bod y categori hwn yn cynnwys cartrefi gofal preswyl. Mae angen eglurder hefyd ynghylch maint y cartrefi sydd wedi'u cynnwys yn y cwrpas, gan fod rhai trefniadau gofal yn cael eu gweithredu gan sefydliad masnachol ond yng nghartref cleient, ac mae enghreiffiau o eiddo preswyl sy'n gweithredu fel 'tai amlfeddiannaeth'.

- Mae'r categori cartrefi preswyl yn gategori eang a gall gynnwys llawer o amrywiaeth o ran cartrefi preswyl/llety gwarchod a chyfleusterau 'camu i lawr' ac felly gofynnir am arweiniad pellach.
- A yw canolfannau cymunedol a neuaddau pentref yn cael eu cynnwys neu eu heithrio?
- Parciau carafanau gyda chymysgedd o drigolion a thwristiaid lle mae cynwysyddion gwastraff yn cael eu rhannu.
- Safleoedd domestig a safleoedd busnes eraill lle mae cynwysyddion gwastraff yn cael eu rhannu.
- A yw'r blociau preswyl mewn prifysgolion a cholegau wedi'u cynnwys neu wedi'u heithrio?
- Bwytai a chaffis – ydy'r categori hwn yn cynnwys safleoedd tecawê sy'n gweithredu fel siopau tecawê ar gyfer casglu a/neu ddanfôn? Hefyd, mae'n bosibl na fydd gan werthwyr bwyd symudol/statig ddigon o le i storio cynwysyddion
- Ydy siopau trin gwallt, barbwyr, bariau ewinedd, siopau tatŵs, siopau tyllu'r corff wedi'u cynnwys yn y categori siopau a chanolfannau siopa?
- A yw lladd-dai a safleoedd prosesu cig wedi'u heithrio?
- Dylid eithrio manau agored, parciau, mynwentydd, ardaloedd eraill lle mae biniau sbwriel yn cael eu darparu, ayb sy'n eiddo i'r awdurdod lleol ac sy'n cael eu rheoli gan yr awdurdod lleol.
- Mae man addoli wedi'i ddsbarthu o dan y Rheoliadau Gwastraff a Reolir fel cynhyrhydd gwastraff cartref ond mae wedi'i gynnwys yn adran 6 fel eiddo annomestig rhwymedig, felly mynegodd yr ymatebydd y farn bod anghysondeb yma. Gwneir yr un pwynt hefyd ynghylch elusennau ac adeiladau a ddefnyddir 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus'. Gofynnodd yr ymatebwyr am eglurhad ynghylch a oes anghysondeb.

Nodwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn y gall fod angen i rowndiau casglu sy'n cael eu gweithredu gan Awdurdodau Lleol ganiatáu ar gyfer cyd-gasglu o eiddo preswyl lle telir am gasglu (ac wedi'u heithrio o'r cod) ynghyd ag eiddo amhreswyl sy'n rhwymedig, a allai gynyddu nifer y rowndiau casglu, allyriadau trafnidiaeth, costau casglu cysylltiedig a gofynion didoli i gynnal y gofynion gwahanu.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n deall yr esboniad o 'meddiannydd', y mae gofyn iddo gydymffurfio â'r gofynion gwahanu?

Mae'r cod yn nodi bod yn rhaid i feddianwyr eiddo annomestig gydymffurfio â'r gofynion gwahanu. Rhoddir enghreifftiau o feddianwyr mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 4 yn cael eu dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a'u crynhoi yn Nhabl 4.

Tabl 4: Ymatebion yn ôl math o sefydliad, i Gwestiwn 4 - Ydych chi'n deall yr esboniad o 'meddiannydd', y mae gofyn iddo gydymffurfio â'r gofynion gwahanu?

Math o Sefydliad	i) Ydw	ii) Nac ydw	iii) Dim barn	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	18	2	1	21	0
Sefydliad trydydd sector	6	2	0	8	1
Sefydliad sector cyhoeddus	17	0	0	17	2
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	10	0	0	10	0
Cwmni rheoli gwastraff	11	0	0	11	0
Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)	13	4	2	19	6
CYFANSWM	75	8	3	86	9
Canran (%)	87.2%	9.3%	3.5%	100.0%	

Dywedodd y rhan fwyaf (tua 87%) o'r ymatebwyr eu bod yn deall yr esboniad o 'feddiannydd'. I'r lleiafrif (tua 9%) a ddywedodd "Nac ydw" roedd y sylwadau'n rhoi sylw i'r materion canlynol:

- Yr anhawster o ran gweithredu a gorfodi'r gofynion gwahanu yn ymarferol mewn sefyllfaoedd lle mae'r 'meddiannydd' yn dibynnu ar gydweithrediad eraill megis mewn gwestai, llety hunanarlwyo, mewn digwyddiadau. Gallai sefyllfa debyg godi mewn adeiladau amlfeddiant a lle mae cyfrifoldebau gan nifer o feddianwyr.
- Cafodd y posibilrwydd o gynnwys lefelau de-minimis ei godi gan ddau sefydliad fel opsiwn ar gyfer busnesau bach a chanolig a chynhyrchwyr gwastraff dwysedd isel yn ogystal ag eithriadau ar gyfer digwyddiadau dros dro bach, lleoliadau â chyfyngiadau gofod, a lleoliadau tenau eu poblogaeth. Er nad oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r cwestiwn, soniodd un ymatebydd hefyd am oblygiadau amgylcheddol casglu o leoliadau gwledig.
- Mynegodd un ymatebydd y mater o ddiffiniad o 'feddiannydd' yn nhermau sut cymhwysir y cod i barciau gwyliau sydd â dim ond eiddo preifat.

Cwestiwn 5: Mae rhai eithriadau i'r gofynion gwahanu sy'n cael eu hesbonio yn y cod, er enghraifft am resymau diogelwch cenedlaethol, gwastraff peryglus neu glinigol neu i ddiogelu cyfrinachedd neu ddata personol. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw feysydd eraill y dylid eu heithrio o'r gofynion gwahanu?

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 5 yn cael eu dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a'u crynhoi yn Nhabl 5.

Tabl 5: Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, i Gwestiwn 5 - Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw feysydd eraill y dylid eu heithrio o'r gofynion gwahanu?

Math o Sefydliad	i) Ydw	ii) Nac ydw	iii) Ddim yn gwybod	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	11	7	3	21	0
Sefydliad trydydd sector	2	5	1	8	1
Sefydliad sector cyhoeddus	6	10	1	17	2
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	2	6	2	10	0
Cwmni rheoli gwastraff	5	5	1	11	0
Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)	7	7	5	19	6
CYFANSWM	33	40	13	86	9
Canran (%)	38.4%	46.5%	15.1%	100.0%	

Atebodd y rhan fwyaf (tua 62%) o'r ymatebwyr "Ydw" neu "Ddim yn gwybod" i'r cwestiwn hwn ac felly nid oedd ganddynt unrhyw esemptiadau i'w hychwanegu. Roedd y rhai a atebodd "Ydw" i'r cwestiwn hwn yn cynnig rhai awgrymiadau ynghylch esemptiadau ychwanegol.

Cafwyd sylwadau mynych ynghylch y mathau o safleoedd y dylid eu heithrio, er enghraifft biniau sbwriel cyhoeddus mewn mannau a reolir gan Awdurdodau Lleol a mannau addoli. Cafwyd nifer o alwadau hefyd (a godwyd gyntaf yng Nghwestiwn 3) am lefelau de minimis ar gyfer pob math o wastraff a lle mae dadleuon amgylcheddol a dadleuon cost yn erbyn cynwysyddion lluosog neu deithio pellteroedd hir i gasglu symiau bach o wastraff. Awgrymwyd y gallai lefelau de minimis fod yn seiliedig ar drothwyon cynhyrchu gwastraff neu drosiant busnes. Cyfeiriwyd unwaith eto at esemptiadau posibl mewn achosion o amharu ar farchnadoedd ailgylchu neu gwmp yn y farchnad fel maes posibl ar gyfer esemptiad (a godwyd gyntaf yng Nghwestiwn 2).

Mae'r awgrymiadau ar gyfer esemptiadau na thrafodwyd eisoes yn cynnwys:

- Cod Catalog Gwastraff Ewrop 180104 – gwastraff tramgwyddus nad yw'n beryglus.
- Gorsafoedd ambiwlans a'r gwasanaeth ambiwlans i fod i gael eu heithrio o'r gofynion gwahanu oherwydd ffactorau megis lle cyfyngedig, amser, cyllidebau. Dywedwyd hefyd y byddai'n anodd gwahanu ar ambiwlansys.
- Elusennau a mudiadau gwirfoddol.
- Ffrydiau gwastraff halogedig.
- Adeiladau gofal preswyl lle mae preswylwyr yn byw ar eu pen eu hunain a lle nad yw llinellau cyfrifoldeb busnes/preswylwyr yn glir.
- Lleoliadau lle dibynnir ar gydweithrediad cyhoeddus i wahanu, er enghraifft neuaddau siopa bwyd, parciau thema, gorsafoedd gwasanaeth, parciau gwyliau.

Mynegodd nifer o ymatebwyr bryder ynghylch y gallu i nodi presenoldeb llygryddion organig parhaus (POPs) mewn eitemau sWEEE ac felly nodwyd bod eitemau y gellid eu hystyried yn beryglus angen esboniad neu arweiniad ychwanegol.

Nodwyd hefyd bod y gofyniad i wahanu gwastraff bwyd oddi wrth ei ddeunydd pacio mewn eiddo manwerthu pan fo'r eitem naill ai heibio'i ddyddiad neu na chafodd ei werthu i'r cyhoedd yn broblem i fanwerthwyr o bob maint a nodwyd bod safleoedd gwastraff yn fwy addas i gyflawni'r dasg hon. Yn ogystal â hyn, ac i gefnogi'r gofyniad gwahanu hwn, un awgrym oedd y dylid diffinio gwastraff bwyd fel gwastraff wedi'i 'becynnu' neu 'heb ei becynnu'.

Gofynnodd sawl busnes iddynt gael eu heithrio o'r gofynion oherwydd diffyg lle mewn adeiladau i wahanu gwastraff a'r lefelau isel tebygol o wastraff a gynhyrchir mewn storfeydd o'r fath, yn enwedig ar gyfer y ffrydiau tecstilau a gwastraff bwyd.

Deddfwriaeth ategol

Mae'r gofynion gwahanu'n gweithredu ochr yn ochr â gofynion cyfreithiol eraill, gan gynnwys, er enghraifft, y gofynion dyletswydd gofal gwastraff. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n cynhyrchu neu'n delio â gwastraff i'w gadw'n ddiogel, sicrhau ei fod yn cael ei drin yn gyfrifol, a dim ond ei roi i fusnesau sydd wedi'u hawdurdodi i'w gymryd.

Cwestiwn 6: Ydy cynnwys gwybodaeth am ddeddfwriaeth atodol arall sy'n gweithredu ochr yn ochr â'r rheoliadau (e.e., dyletswydd gofal) yn ddefnyddiol?

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 6 yn cael eu dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a'u crynhoi yn Nhabl 6.

Tabl 6 Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, i Gwestiwn 6. Ydy cynnwys gwybodaeth am ddeddfwriaeth atodol arall sy'n gweithredu ochr yn ochr â'r rheoliadau (e.e., dyletswydd gofal) yn ddefnyddiol?

Math o Sefydliad	i) Defnyddiol iawn	ii) Yn ddefnyddiol ar y cyfan	iii) Dim barn	iv) Ddim yn ddefnyddiol	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	8	6	5	2	21	0
Sefydliad trydydd sector	3	2	2	1	8	1
Sefydliad sector cyhoeddus	4	13	1	0	18	1
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	5	3	2	0	10	0
Cwmni rheoli gwastraff	5	5	1	0	11	0
Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)	7	8	2	2	19	6
CYFANSWM	32	37	13	5	87	8
Canran (%)	36.8%	42.5%	14.9%	5.7%	100.0%	

Roedd yr adran yn y cod sy'n ymwneud â deddfwriaeth ategol yn cael ei hystyried yn "ddefnyddiol iawn" neu'n "ddefnyddiol ar y cyfan" gan y rhan fwyaf (tua 79%) o'r ymatebwyr. Roedd cyfran fechan (tua 6%) yn teimlo ei fod "Ddim yn ddefnyddiol".

Darparwyd blwch testun rhydd i alluogi ymatebwyr i awgrymu deddfwriaeth ategol ychwanegol y gellid ei chrybwyll yn y cod. Roedd y prif awgrymiadau gan ymatebwyr yn cynnwys y canlynol:

- Codau Catalog Gwastraff Ewropeaidd (EWC) perthnasol ar gyfer y ffrydiau gwastraff ar wahân i osgoi dryswch ac i helpu busnesau i ddefnyddio'r codau cywir.
- Cyfeirio at y deddfwriaeth sy'n gwahardd cynnyrch plastig untro, y Cynlluniau Dychwelyd Blaendal a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, ynghyd â meysydd eraill sy'n gorgyffwrdd, er enghraifft gorfodi cymryd cwpanau papur untro yn ôl, a gofynion adrodd cysylltiedig.
- Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012 gan gynnwys nodi safleoedd sy'n gymwys ar gyfer casgliadau gwastraff am ddim.
- Gofynion iechyd a diogelwch/diogelwch tân gan gyfeirio at storio cynwysyddion yn briodol a hefyd y gofyniad i beidio â rhwystro palmentydd/llwybrau troed, ac ati.
- Bydd canllawiau ychwanegol ar wahanu gwastraff bwyd hefyd yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (ABPR).
- Cyrff gorfodi ar gyfer y cod a'r rheoliadau cysylltiedig i nodi cyfrifoldebau gwahanol Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol.

Mae rhai eitemau ategol eraill yr awgrymwyd eu bod yn ddefnyddiol i fusnesau yn cynnwys y canlynol:

- Crynodebau penodol i'r sector o'r prif newidiadau.
- Canllawiau ar lefelau halogi llwythi sy'n dderbyniol/annerbyniol.
- Hyperddolenni i ddogfennau perthnasol eraill i'w gwneud yn haws i ddefnyddio gwybodaeth.

Awgrymwyd hefyd gan nifer o gwmnïau rheoli gwastraff y dylai Llywodraeth Cymru ystyried polisiau ychwanegol i gefnogi datblygu capasiti didoli marchnadoedd a chyfleusterau ailgylchu deunyddiau (MRF), er enghraifft ar gyfer casglu ffoil alwminiwm a hambyrddau bwyd, a chartonau bwyd a diod.

Geirfa

Mae'r eirfa'n egluro'r termau a ddefnyddir yn y cod i helpu i wella dealltwriaeth ac eglurder, er enghraifft ailgylchu 'dolen gaeedig' a 'dolen agored'.

Cwestiwn 7: Ydych chi'n fodlon â'r diffiniadau a roddir yn yr eirfa?

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 7 yn cael eu dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a'u crynhoi yn Nhabl 7

Tabl 7 Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, i Gwestiwn 7. Ydych chi'n fodlon â'r diffiniadau a roddir yn yr eirfa?

Math o Sefydliad	i) Ydw	ii) Nac ydw	iii) Dim barn	Cyfansw m	Heb ateb
Busnes	14	2	5	21	0
Sefydliad trydydd sector	6	2	0	8	1
Sefydliad sector cyhoeddus	12	1	4	17	2
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	10	0	0	10	0
Cwmni rheoli gwastraff	4	3	4	11	0
Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)	11	6	2	19	6
CYFANSWM	57	14	15	86	9
Canran (%)	66.3 %	16.3 %	17.4%	100.0%	

Dyweddod y rhan fwyaf (tua 79%) o'r ymatebwyr eu bod naill ai'n fodlon â'r diffiniadau yn yr eirfa neu nad oedd ganddynt farn. Roedd lleiafrif, (tua 16%) yn anfodlon â'r diffiniadau a ddarparwyd yn yr eirfa, gyda 15 o ymatebwyr yn gwneud rhai awgrymiadau ynghylch ychwanegiadau neu newidiadau i'r diffiniadau hyn.

Awgrymwyd y dylid ychwanegu dolen at y cod yn cyfeirio busnesau at ganllawiau ar sut i ddsbarthu gwastraff yn gywir. (<https://www.gov.uk/how-to-classify-different-types-of-waste>)

Awgrymwyd y diffiniadau ychwanegol canlynol:

- Darperir diffiniad o ailgylchu 'o ansawdd uchel', er mwyn egluro a yw ailgylchu dolen agored wedi'i gynnwys yn y diffiniad o ansawdd uchel.
- Diffiniad o 'gynhwysydd'.
- Diffiniad o 'becynnau cyfansawdd plastig ffibr arall'.
- Diffiniad o 'gartonau' a 'deunyddiau cyfansawdd'.

Awgrymwyd y dylai'r diffiniad o 'wastraff masnachol' fod yn ehangach a bod yn gliriach ar y mathau o eiddo sy'n cynhyrchu gwastraff masnachol.

Awgrymwyd y dylai'r diffiniad o wastraff bwyd esbonio bod modd ailgylchu deunydd pacio gwastraff bwyd ar ôl ei lanhau.

Roedd rhywfaint o gyfeiriad at ddiffiniadau o ffrydiau gwastraff penodol, a fyddai'n cael sylw mewn rhannau eraill o'r canllawiau, er enghraifft plastigau a deunydd pacio cyfansawdd ffeibr-blastig yn benodol. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol darparu enghreifftiau bob dydd ac o bosibl lluniau o eitemau i gefnogi'r dehongliad. Roedd galwadau mynych am gynnwys codau EWC yn y cod.

Atodiad 1-6: Rhestr o is-ffracsiynau gwastraff

Yn dilyn yr ymgynghoriad yn 2019, nododd ymatebwyr eu bod am i'r gofynion gwahanu roi manylion yr is-ffracsiynau o ddeunyddiau gwastraff y dylid eu cynnwys ym mhob ffrwd gwastraff y gellir ei ailgylchu. Ar gyfer pob eiddo annomestig, mae'r is-ffracsiynau y dylid eu rhoi mewn cynwysyddion ar wahân ar gyfer papur/cerdyn, metel/plastig/cartonau, gwydr, gwastraff bwyd, tecstilau heb eu gwerthu a sWEEE heb ei werthu wedi'u cynnwys yn y rheoliadau gwahanu arfaethedig ac maent wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1-6 y cod, yn y drefn honno.

Cwestiwn 8: Ydych chi'n fodlon â'r esboniad o'r is-ffracsiynau y dylid eu rhoi mewn ffrydiau ar wahân?

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 8 yn cael eu dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a'u crynhoi yn Nhabl 8.

Tabl 8 Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, i Gwestiwn 8. Ydych chi'n fodlon â'r esboniad o'r is-ffracsiynau y dylid eu rhoi mewn ffrydiau ar wahân?

Math o Sefydliad	i) Bodlon iawn	ii) Eithaf bodlon	iii) Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	iv) Ddim yn fodlon	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	9	4	4	4	21	0
Sefydliad trydydd sector	3	3	0	2	8	1
Sefydliad sector cyhoeddus	5	9	3	1	18	1
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	2	2	3	3	10	0
Cwmni rheoli gwastraff	0	7	3	1	11	0
Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)	3	6	4	5	18	7
CYFANSWM	22	31	17	16	86	9
Canran (%)	25.6%	36.0%	19.8%	18.6%	100.0%	

O ran y disgrifiadau o'r is-ffracsiynau, mae'r rhan fwyaf (tua 62%) o'r ymatebwyr yn fodlon gyda'r esboniadau a ddarparwyd, gyda chwarter yr ymatebwyr yn dewis "bodlon iawn" a thraean o'r ymatebwyr yn "eithaf bodlon". Derbyniwyd cyfanswm o 34 o ymatebion ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd y rhain yn cynnwys sylwadau nad

oes digon o eglurder yn nhermau'r is-ffracsiynau ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer is-ffracsiynau penodol yr oedd angen eglurhad pellach yn eu cylch.

Mae'r is-ffracsiynau a nodwyd gan rai ymatebwyr fel rhai y mae angen gwybodaeth ychwanegol amdanynt yn cynnwys y canlynol:

- 'Cartonau' – dylai fod yn glir mai cartonau bwyd a diod yw'r rhain ac nid cartonau cardfwrdd (Atodiadau 2 a 3).
- Dylid cynnwys 'derbynebaw til' yn y ffracsiwn papur (Atodiad 1).
- Dylid diffinio 'Esgyrn mawr' (Atodiad 4).
- Ni chyfeirir at fatris cludadwy na pheccynnau pŵer yn Atodiad 6.
- Ydy cawl a smwddis yn cael eu diffinio fel bwyd neu ddiod? (Atodiad 4).
- Carpion papur – cwestiynwyd pam fod angen ailgylchu hwn ar wahân (Atodiad 1) gan nifer o ymatebwyr, ac eraill yn nodi'r angen i egluro sut y byddai'n cael ei ailgylchu ar wahân.
- Amlenni gyda ffenestri (Atodiad 1). Ni esbonnir y budd neu'r angen am wahanu pellach yn yr achos hwn.
- Cynwysyddion/deunydd pacio gyda halogiad – faint o halogi sy'n dderbyniol (Atodiad 2) ar gyfer pecynnau bwyd a pheccynnau nad ydynt ar gyfer bwyd.
- Eitemau lle nad yw'r foltedd yn glir (Atodiad 6).
- Nodi POPs (Atodiad 5).
- Mae'r defnydd o 'e.e.', 'ac ati', a 'h.y.' yn cael ei ystyried yn ddi-fudd ac yn ddryslyd.
- Y term 'heb ei werthu' yn Atodiad 5 – a yw'n cynnwys siopau elusen, ffeiriau sborion neu ddigwyddiadau elusennol eraill lle mae eitemau trydanol yn cael eu gwerthu? Ar ben hynny, sut bydd contractwr rheoli gwastraff yn gallu adnabod a yw SWEEE wedi'i werthu neu heb ei werthu yn cael ei gyflwyno i'w gasglu?
- Caniau aerosolau metel – roedd pryder bod y rhain fel arfer yn wastraff peryglus (gan ddefnyddio canllawiau technegol dosbarthu gwastraff WM3 os nad ydynt yn gwbl wag ac yn cael eu casglu o adeiladau annomestig (sy'n wahanol ar gyfer eiddo domestig).
- Sut bydd eitemau mawr fel matresi, carpedi, isgarped ac ati yn ffitio mewn cynhwysydd. Petaent yn cael ei adael ar y palmant, gallai'r eitemau hyn achosi rhwystr neu broblemau iechyd a diogelwch, a gallai fod problemau logistaidd o ran casglu'r eitemau mwy hyn yn ogystal â nifer cyfyngedig o allfeydd ar gyfer yr eitemau. (Atodiad 5).

Er ei fod efallai'n fwy perthnasol fel ymateb i Gwestiwn 11, codwyd y mater o osod cartonau a deunydd pacio cyfansawdd ffibr-blastig arall yn y ffrwd blastig a metel gan nifer o ymatebwyr mewn perthynas â'r cwestiwn hwn, gan ddweud nad oeddent yn cytuno â'r gofyniad hwn ac y dylid rhoi cartonau yn y ffrwd papur a cherdyn. Nodwyd hefyd y gallai hyn fod yn ddryslyd i fusnesau gan fod hyn yn ofyniad gwahanol i wahanu ar gyfer casgliadau domestig lle caniateir cymysgu cartonau. Awgrymwyd y dylid cael mwy o gysondeb â'r gofynion gwahanu o safleoedd domestig er mwyn lleihau dryswch i unigolion.

Awgrymwyd y dylid cynnwys mecanwaith adolygu clir ar gyfer y cod fel bod modd mynd i'r afael yn rheolaidd â'r mater o newidiadau i'r gallu i ail-gylchu is-ffracsiynau deunyddiau a'r marchnadoedd ailbrosesu sydd ar gael.

Awgrymwyd y gellid defnyddio diagramau i gefnogi'r disgrifiadau o ffracsiynau gwastraff.

Rhan II Newidiadau Arfaethedig i'r Polisi

Cynigion diwygiedig ar y bwriad i gyflwyno'r gofynion sy'n ymwneud â Chyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff Bach (sWEEE) a thecstilau

Codwyd pryderon ynghylch ymarferoldeb ac effeithiolrwydd cynnwys gofyniad yn y rheoliadau ar gyfer cyflwyno a chasglu holl sWEEE a holl decstilau ar wahân o'r adeg y daw'r rheoliadau i rym. Mewn ymateb, bwriad y polisi yw bod gofynion gwahanu a chasglu ar gyfer sWEEE a thecstilau o eiddo annomestig yn cael eu cyflwyno hyd at ddwy flynedd a hyd at dair blynedd yn y drefn honno, ar ôl y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym. Bydd sWEEE heb ei werthu a thecstilau heb eu gwerthu wedi'u cynnwys yn y gofynion gwahanu o'r cychwyn cyntaf.

Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff Bach (sWEEE)

Gwestiwn 9: Rydym yn cynnig eithrio'r rhan fwyaf o sWEEE (ar wahân i sWEEE heb eu gwerthu) o'r gofynion gwahanu i ddechrau ond rydym yn bwriadu eu cynnwys hyd at ddwy flynedd ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym. Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn?

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 9 yn cael eu dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a'u crynhoi yn Nhabl 9.

Tabl 9 Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, i Gwestiwn 9. Ydych chi'n fodlon â'r cynnig i eithrio'r rhan fwyaf o sWEEE (ar wahân i sWEEE heb ei werthu) o'r gofynion gwahanu i ddechrau?

Math o Sefydliad	i) Ydw	ii) Nac ydw	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	17	4	21	0
Sefydliad trydydd sector	5	3	8	1
Sefydliad sector cyhoeddus	11	6	17	2
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	5	5	10	0
Cwmni rheoli gwastraff	7	4	11	0
Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)	10	5	15	10
CYFANSWM	55	27	82	13
Canran (%)	67.1%	32.9%	100.0%	

Cytunai'r mwyafrif (tua 67%) o'r ymatebwyr gyda'r cynnig i ganiatáu mwy o amser i gynnwys sWEEE yn y gofynion gwahanu cychwynnol. Fodd bynnag, roedd

gwahaniaeth barn ymhlith yr Awdurdodau Lleol a ymatebodd o ran y mater, gyda'r un nifer yn rhoi ateb cadarnhaol a negyddol i'r cwestiwn hwn.

Roedd y rhai a atebodd "Nac ydw" ac a roddodd reswm dros eu hateb yn dweud na ddylid gohirio'r gofynion hyn oherwydd:

- Mae cyfleusterau sy'n ailbroseu sWEEE eisoes ar gael.
- Bydd yn osgoi dryswch ynghylch rheoli'r ffrwd wastraff hon ar gyfer busnesau.
- Mae sWEEE yn aml yn cynnwys batris y gellir eu hailwefru sy'n achosi risg o danio mewn cerbydau casglu gwastraff ac mewn cyfleusterau gwastraff a dylid eu casglu ar wahân.
- Gellir dosbarthu sWEEE yn aml fel gwastraff peryglus ac felly dylai fod yn flaenoriaeth ar gyfer casglu ar wahân.

Aeth nifer o ymatebwyr ymhellach ynghylch y mater batris, gan ddweud y dylai'r cod ei gwneud yn glir y dylid tynnu batris o sWEEE cyn eu casglu ar wahân.

Cododd nifer o Awdurdodau Lleol y mater o gasglu sWEEE ar wahân gan fusnesau, pan ofynnir am hynny, a'r aneffeithlonrwydd posibl wrth wneud hyn. Er mwyn delio â'r mater, gofynnodd sawl Awdurdod Lleol a fyddai caniatáu i fusnesau gael mynediad i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi (HWRCs) (am dâl) i waredu sWEEE yn bodloni'r gofynion casglu ar wahân.

Nodwyd nad yw'r datganiad 'hyd at ddwy flynedd ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym' yn rhoi digon o eglurder ynghylch yr amserlen ar gyfer gweithredu a fyddai'n caniatáu cynllunio addas ar gyfer y ffrwd wastraff hon.

Tecstilau

Cwestiwn 10 Rydym yn cynnig eithrio'r rhan fwyaf o decstilau (ar wahân i decstilau heb eu gwerthu) o'r gofynion gwahanu i ddechrau ond rydym yn bwriadu eu cynnwys hyd at dair blynedd ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym. O ganlyniad, rydym hefyd yn cynnig peidio â bwrw ymlaen â'r gwaharddiad arfaethedig ar decstilau a gesglir ar wahân (ar wahân i decstilau heb eu gwerthu) a fydd yn cael eu llosgi yn y lle cyntaf, ond yn bwriadu gwneud hynny o fewn yr un amserlen. A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu hwn?

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 10 yn cael eu dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a'u crynhoi yn Nhabl 10.

Tabl 10: Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, i Gwestiwn 10. Ydych chi'n cytuno â'r dull hwn o eithrio tecstilau o'r gofynion gwahanu i ddechrau?

Math o Sefydliad	i) Ydw	ii) Nac ydw	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	14	5	19	2

Sefydliad trydydd sector	6	1	7	2
Sefydliad sector cyhoeddus	12	4	16	3
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	5	5	10	0
Cwmni rheoli gwastraff	11	0	11	0
Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)	11	1	12	13
CYFANSWM	59	16	75	20
Canran (%)	78.7 %	21.3 %	100.0%	

Roedd y rhan fwyaf (tua 79%) o'r ymatebwyr yn cefnogi'r penderfyniad i ganiatáu mwy o amser ar gyfer cynnwys y rhan fwyaf o decstilau yn y gofynion gwahanu. Yn yr un modd â Chwestiwn 9, roedd gwahaniaeth barn ymhlith yr Awdurdodau Lleol a ymatebodd o ran y mater, gyda'r un nifer yn rhoi ateb cadarnhaol a negyddol i'r cwestiwn hwn.

Roedd nifer o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn gofyn am eglurhad o'r hyn a olygir wrth decstilau 'heb eu gwerthu' yng nghyd-destun y rheoliadau (mater a nodwyd hefyd yng Nghwestiwn 9, sy'n ymwneud â sWEEE heb ei werthu). Cafwyd amrywiaeth o awgrymiadau eraill hefyd ar gyfer cael gofyniad i wahanu tecstilau heb eu gwerthu. Ceir crynodeb o'r rhain isod.

- Roedd rhywfaint o bryder na fyddai modd ailgylchu'r rhestr o decstilau i'w casglu ar wahân erbyn 2026 ac y dylid ei chyfyngu i decstilau dillad, a hefyd efallai na fydd gan gwmnïau rheoli gwastraff ac Awdurdodau Lleol y gallu i ddelio â'r math hwn o wastraff, er enghraifft o ran yr angen i wahanu tecstilau ar gerbydau a'r effaith ar logisteg cerbydau a hefyd yr angen i gasglu eitemau swmpus fel matresi a charpedi.
- Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylw nad oedd yr achos dros yr esemptiad yn glir, a holwyd hefyd pam ei bod yn dair blynedd i decstilau a dim ond dwy flynedd ar gyfer sWEEE.
- Yn yr un modd â'r sylwadau yng Nghwestiwn 9 ar gyfer sWEEE heb ei werthu, gofynnwyd a fyddai'n bosibl anfon tecstilau heb eu gwerthu i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig neu siopau elusen i'w hailddefnyddio neu eu hailgylchu fel rhan o'r gofynion gwahanu?
- Awgrymodd un ymatebydd mai'r ffordd orau o ddelio â thecstilau yw drwy gynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr (EPR) ar gyfer tecstilau.

Is-ffracsiwn cartonau

Mae trafodaethau gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant cartonau, casglwyr gwastraff, ailbroseswyr a WRAP wedi nodi mai'r ffordd orau o gasglu cartonau yw yn y ffrwd fetel a phlastig ac mai dyma'r ateb gorau ar gyfer gwahanu cartonau wedyn ar gyfer ailbrosesu. Mae'r capasiti hefyd yn bodoli yn y farchnad ar hyn o bryd i gymryd yr holl gartonau domestig a masnachol sy'n deillio yng Nghymru.

Cwestiwn 11: Ein bwriad yw cynnwys cartonau yn y ffrwd metel a phlastig. Ydych chi'n cytuno mai dyma'r ffrwd orau i osod cartonau ynddi?

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 11 yn cael eu dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a'u crynhoi yn Nhabl 11.

Tabl 11: Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, i Gwestiwn 11. Ein bwriad yw cynnwys cartonau yn y ffrwd metel a phlastig. Ydych chi'n cytuno mai dyma'r ffrwd orau i osod cartonau ynddi?

Math o Sefydliad	i) Ydw	ii) Nac ydw	iii) Ddim yn gwybod	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	13	2	5	20	1
Sefydliad trydydd sector	7	0	0	7	2
Sefydliad sector cyhoeddus	10	1	6	17	2
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	5	3	2	10	0
Cwmni rheoli gwastraff	4	5	2	11	0
Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)	11	3	6	20	5
CYFANSWM	50	14	21	85	10
Canran (%)	58.8 %	16.5 %	24.7%	100.0%	

Roedd y rhan fwyaf (tua 59%) o'r ymatebwyr o blaid y penderfyniad i gynnwys cartonau yn y ffrwd fetel a phlastig, fodd bynnag, atebodd bron i chwarter yr ymatebwyr "Ddim yn gwybod" i'r cwestiwn hwn. Mae hon yn gyfran gymharol uchel a gafwyd gan ymatebwyr yng nghategoriâu busnesau, y sector cyhoeddus a'r categori 'arall'. Ymatebwyr o gwmnïau rheoli gwastraff oedd yr unig gategori i anghytuno â barn y mwyafrif, gyda 5 ymatebydd yn ateb "Nac ydw" i'r cwestiwn hwn o'i gymharu â 4 a atebodd "Ydw".

Y sylwadau a ddarparwyd gan y cwmnïau rheoli gwastraff oedd:

- Nad oes ganddynt y cyfleusterau i wahanu'r ffrwd wastraff hon felly byddai angen ei chludo i safle arall i'w phrosesu.
- Y dylai fod ganddynt yr hyblygrwydd i bennu'r ffrwd ailgylchu y dylid ei defnyddio ar gyfer cartonau.
- Nododd un cwmni y byddai angen didoli cartonau â llaw yn eu cyfleuster yng Nghymru, a dim ond nifer fach o felinau yn y DU sy'n ailbroseu'r deunyddiau hyn. Mae'n bosibl na fydd Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn ariannu casgliadau busnes ac felly bydd y gost yn cael ei throsglwyddo'n ôl i gynhyrchwyr.
- Mae'n bosibl y bydd ffrwd pecynnau cartonau yn newid dros amser, ac y bydd wedyn yn fwy addas ar gyfer y ffrwd cardfwrdd a phapur yn y dyfodol, er enghraifft os bydd y deunydd leinin yn cael ei newid. Ar hyn o bryd, mae'n

seiliedig ar y dybiaeth bod y deunydd leinin yn gwneud rhai cartonau'n anghydnaws â'r ffrwd gardfwrdd.

Mae ymatebion Awdurdodau Lleol yn cynnwys:

- Mae'r dull yn dderbyniol os yw ailbrosewyr plastig wedi cadarnhau na fyddai cartonau'n creu halogiad posibl.
- Gofynnir am dystiolaeth o'r trafodaethau gydag ailbrosewyr fel y gellir deall sail y penderfyniad gan fod ein hailbrosewydd plastig presennol wedi datgan bod cartonau'n cael eu hystyried yn halogydd.
- Nododd dau awdurdod y byddai gosod seilwaith didoli i wahanu'r is-ffracsiynau – metelau/cartonau/plastig yn ddrud ar gyfer gynnwys deunydd cyfaint isel a byddai angen cymorth ariannol.
- Ein dealltwriaeth ni yw nad yw MRF yn y sector preifat yn ystyried cartonau yn gydran y gellir ei hailgylchu, er y byddai rhai'n derbyn cartonau o fewn y cymysgedd papur gradd isel.
- Deallir nad yw cartonau cyfansawdd yn ailgylchadwy oherwydd bod angen gwahanu'r haenau yn y deunydd pacio.
- Ar hyn o bryd mae cartonau'n cael eu casglu yn y ffrwd gardiau o eiddo domestig, a gallai newidiadau i hyn effeithio ar ansawdd y deunydd, ac yn y pen draw ar yr incwm a geir gan ailbrosewyr.

Roedd cynrychiolaeth o Gymdeithas Fasnach ailgylchu metelau yn adleisio rhai o bryderon y cwmnïau rheoli gwastraff, gan ddweud y byddai casglu cartonau yn cyfrannu at fwy o halogi ar y ffrydiau metel a phlastig y mae'r diwydiant wedi bod yn gweithio'n galed i'w leihau, yn ogystal â'r angen i sefydlu seilwaith didoli. Yr oedd gan Gymdeithas Fasnach ailgylchu plastig farn debyg ar y mater o halogi'r ffrwd blastig.

Roedd nifer o ymatebwyr busnes yn cwestiynu'r diffiniad o garton, a gofynnodd eraill pam mae'r system ar gyfer casglu cartonau yn wahanol ar gyfer casgliadau domestig ac annomestig. Roedd rhai busnesau'n gefnogol o fwy o gymysgu rhwng ffrydiau gwastraff gan ei fod yn rhoi llai o faich ar eu gweithrediadau.

Cynnwys 'deunydd pecynnu cyfansawdd ffibr-blastig arall o gyfansoddiad tebyg i gartonau'

Cwestiwn 12: A ddylai'r ffrwd ddeunyddiau hon (h.y., metel/plastig/cartonau) hefyd gynnwys pecynnu cyfansawdd ffeibr-plastig eraill o gyfansoddiad tebyg i gartonau? Bwriad y geiriad hwn yw cwmpasu deunyddiau fel cynwysyddion papur caled (er enghraifft, pecynnu a ddefnyddir ar gyfer creision) a chwpanau a ddefnyddir ar gyfer diodydd poeth?

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 12 yn cael eu dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a'u crynhoi yn Nhabl 12.

Tabl 12: Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, i Gwestiwn 12. A ddylai'r ffrwd ddeunyddiau hon (h.y. metel/plastig/cartonau) hefyd gynnwys 'deunydd pecynnau cyfansawdd ffeibr-plastig arall o gyfansoddiad tebyg i gartonau'?

Math o Sefydliad	i) Dylai	ii) Na ddylai	iii) Ddim yn gwybod	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	16	4	0	20	1
Sefydliad trydydd sector	7	0	1	8	1
Sefydliad sector cyhoeddus	12	3	2	17	2
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	3	6	1	10	0
Cwmni rheoli gwastraff	3	6	2	11	0
Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)	9	5	5	19	6
CYFANSWM	50	24	11	85	10
Canran (%)	58.8%	28.2%	12.9%	100.0%	

Roedd y rhan fwyaf (tua 59%) o'r ymatebwyr o blaid y penderfyniad i gynnwys 'deunydd pacio cyfansawdd ffeibr-plastig arall' yn y ffrwd metel/plastig/carton. Fodd bynnag, roedd Awdurdodau Lleol a chwmnïau rheoli gwastraff yn anghytuno â'r safbwynt cyffredinol gyda mwy o ymatebwyr yn dweud "Na ddylai" na "Dylai" ar gyfer y cwestiwn hwn.

Mae'r sylwadau a ddarparwyd gan Awdurdodau Lleol a chwmnïau rheoli gwastraff fel a ganlyn:

- Mae hyn yn dderbyniol os yw ailbroseswyr plastig wedi cadarnhau na fydd unrhyw risgiau halogi o'r ychwanegiad.
- Ni ddylid cynhyrchu cynwysyddion anodd eu hailgylchu yn y lle cyntaf
- Mae'r seilwaith ailgylchu ar gyfer 'deunydd pacio cyfansawdd ffeibr-plastig' yn gyfyngedig yng Nghymru a'r DU ac mae'r deunydd hwn yn halogydd mewn llawer o ffrydiau ailgylchu gwastraff cartrefi ac nid yw MRF neu leoliadau didoli eraill wedi'u harfogi i wahanu'r deunydd hwn ac felly ni ddylid ei gynnwys nes bod capasiti ar gael.
- Ar hyn o bryd, nid oes gennym farchnad ar gyfer cwpanau papur gyda leinin plastig, ac nid yw llawer o ailbroseswyr yn derbyn y math hwn o ddeunydd.
- Mae'r gofyniad hwn yn gwrthdaro â'r gofyniad EPR i werthwyr cwpanau cyfansawdd ffibr ddarparu ar gyfer casglu cwpanau ar wahân.
- Mae perygl o ddrysu busnesau drwy dynnu deunydd pacio cyfansawdd ffeibr-plastig oddi wrth y ffrwd papur a cherdyn, a allai achosi halogiad.

Cymysg oedd barn Cymdeithasau Masnach, gyda rhai'n cytuno â barn y casglwr gwastraff uchod ynghylch ychwanegu cymhlethdod at drefniadau didoli a halogiad posibl.

Barn un Gymdeithas Fasnach oedd y byddai eu cynnwys yn gadarnhaol o ran ailgylchu mwy o gwpanau papur, a rhoi mynediad at ffeibr wedi'i ailgylchu o ffynonellau busnes, a gweithio ochr yn ochr â gofynion cymryd cwpanau yn ôl EPR. Dywedodd Cymdeithas Fasnach arall y gall 'cyfansoddion ffeibr' fod yn amrywiol o ran cyfansoddiad deunyddiau a allai halogi gweithrediadau ailgylchu, a byddai'n cynghori ymchwilio ymhellach i'r mater hwn gydag ailbroseswyr. Awgrym arall oedd cael ffrwd ar wahân ar gyfer y math hwn o ddeunydd i alluogi 'ailgylchu o safon uchel'. Tynnodd nifer o fusnesau sylw at y risg o halogi'r ffrwd wastraff hon neu ddiffyg cydymffurfio anfwriadol oherwydd na ellid adnabod deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn gywir.

Cyflwyno'n raddol i ysbytai

Rydym yn bwriadu i ysbytai fod yn ddarostyngedig i'r gofynion gwahanu ddwy flynedd ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym, sy'n golygu y bydd yn rhaid i ysbytai gydymffurfio â'r gofynion gwahanu o 1 Hydref 2025 ymlaen. Bwriad y cyflwyno graddol hwn yw adlewyrchu'r pwysau y mae ysbytai wedi'u hwynebu yn ystod y pandemig diweddar.

Cwestiwn 13: Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn ar gyfer ysbytai?

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 13 yn cael eu dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a'u crynhoi yn Nhabl 13.

Tabl 13: Ymatebion yn ôl y math o sefydliad, i Gwestiwn 13. Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn ar gyfer ysbytai?

Math o Sefydliad	i) Ydw	ii) Nac ydw	iii) Ddim yn siŵr	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	12	2	5	19	2
Sefydliad trydydd sector	4	1	1	6	3
Sefydliad sector cyhoeddus	9	4	3	16	3
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	5	2	3	10	0
Cwmni rheoli gwastraff	4	6	0	10	1
Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)	10	2	4	16	9
CYFANSWM	44	17	16	77	18
Canran (%)	57.1%	22.1%	20.8%	100.0%	

Mae'r rhan fwyaf (tua 57%) o'r ymatebwyr yn cytuno i gynnwys ysbytai yn y gofynion gwahanu yn 2025 yn hytrach na 2023, er bod tua un rhan o bump o'r ymatebwyr

wedi ateb “Ddim yn siŵr” i’r cwestiwn hwn. Roedd cwmnïau rheoli gwastraff yn anghytuno â barn y mwyafrif, gyda nifer uwch yn ateb “Nac ydw” yn hytrach na “Ydw”.

Yr adborth gan gwmnïau rheoli gwastraff oedd:

- Mae’r pandemig wedi cael effaith niweidiol ar bob busnes ac nid oes rheswm pam y dylid trin ysbytai’n wahanol yn hyn o beth.
- O dan y cynnig, byddai angen i gwmnïau rheoli gwastraff weithredu gwahanol rowndiau casglu i ddarparu ar gyfer casgliadau o ysbytai, gan achosi aneffeithlonrwydd o safbwynt cost ac o safbwynt amgylcheddol. Byddai effaith gysylltiedig ar seilwaith didoli i ddelio â’r gwahanol systemau. Mae hefyd yn debygol y bydd llawer iawn o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn cael eu cynhyrchu gan ysbytai ac felly bydd oedi yn cael effaith negyddol ar y potensial cyffredinol i ddargyfeirio.

Roedd sylwadau gan ymatebwyr eraill yn ymwneud â materion tebyg a godwyd gan gwmnïau rheoli gwastraff ynghylch yr angen am systemau casglu ar wahân ar gyfer ysbytai. Nodwyd y sylwadau ychwanegol canlynol:

- Gofynnodd nifer o ymatebwyr pam y dylid trin ysbytai’n wahanol i sefydliadau eraill fel elusennau, cartrefi gofal neu fanwerthwyr sydd hefyd wedi profi effeithiau negyddol y pandemig, ynghyd â phrinder lle/adnoddau a heriau eraill? Nodwyd nad yw ceginau ysbytai yn wahanol i geginau mewn sefydliadau annomestig eraill.
- Gofynnodd y gwasanaeth ambiwlans am gael ei gynnwys yn yr oedi.
- Cododd un ymddiriedolaeth ysbyty faterion diogelwch tân sy’n codi’n anuniongyrchol o ofynion gwahanu yn nhermau storio deunyddiau a’r angen am finiau ychwanegol yn ogystal â materion ynghlwm â chadw’r rhain oherwydd oedran a chynllun adeiladau’r ymddiriedolaeth. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch storio deunyddiau a’r angen am finiau ychwanegol sy’n groes i waith mewnol ar leihau rhwystrau ar wardiau a choridorau er mwyn sicrhau mwy o ofod mewnol. Bydd pwysau cost ynghlwm wrth sefydlu systemau newydd ar draws yr Ymddiriedolaeth.
- Nododd dwy ymddiriedolaeth ysbyty arall nad oedd digon o le a chostau cyfalaf yn gysylltiedig â chydymffurfio i ddarparu cyfleusterau storio.

Sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 14: Os oes gennych chi unrhyw sylwadau mewn perthynas â’r cod neu’r rheoliadau arfaethedig nad ydynt yn cael sylw uniongyrchol yn y cwestiynau uchod, amlinellwch y rhain yn y ffurflen ymateb isod.

Cafodd yr ymgynghoriad 69 ymateb i’r cwestiwn hwn, a darparodd bron i dri chwarter yr ymatebwyr sylwadau ychwanegol. Mewn llawer o achosion, roedd y materion a godwyd mewn perthynas â’r cwestiynau blaenorol yn cael eu hailadrodd, er enghraifft roeddent yn ymwneud â gofynion de minimis am resymau yn ymwneud â

Ile a thunelli, aneffeithlonrwydd posibl casgliadau ar wahân ar gyfer rhai deunyddiau, cost ac effeithiau gweithredol newidiadau i drefniadau casglu a didoli i ddarparu ar gyfer mwy o wahanu, a'r effeithiau ar Awdurdodau Lleol o ganlyniad i weithredu systemau casglu a didoli domestig ac annomestig sy'n wahanol.

Mae'r materion a'r pryderon nad ydynt wedi cael eu codi'n flaenorol, neu a godwyd yn gryno ar gyfer pob cwestiwn, yn cynnwys y canlynol:

Effeithiau

- Pryder gan fusnesau na fydd cwmnïau rheoli gwastraff, hyd yn oed gyda'r rheoliadau newydd ar waith, eisiau casglu o adeiladau sy'n cynhyrchu tunelli isel o wastraff/nwyddau ailgylchadwy, ac felly gallai dod o hyd i gontractwyr fod yn broblemus.
- Ymholiadau ynghylch sut y bydd gorfodi'r systemau newydd yn gweithio'n ymarferol, gan gynnwys sut y dylai casglwyr gwastraff ddelio â llwythi halogedig ar garreg y drws ac mewn cyfleusterau didoli lle ceir llwyth cymysg gan nifer o gwsmeriaid. Hefyd, sut mae casglwyr gwastraff yn dangos eu bod wedi annog busnesau i wahanu gwastraff y gellir ei ailgylchu gymaint â phosibl, ac nad yw gwastraff yn mynd i'r ffrwd wastraff gyffredinol.
- Roedd costau gwaredu ac ailgylchu gwastraff yn gyffredinol ar gyfer busnesau bach yn bryder a godwyd gan nifer o fusnesau.
- Nodwyd bod y costau i fusnesau bach ac elusennau o dalu am gynwysyddion ychwanegol, fel rhan o'r gofynion gwahanu, a'r amser sy'n gysylltiedig â gwahanu, yn bryder gan nifer o ymatebwyr. Codwyd cyfyngiadau o ran gofod hefyd fel problem i nifer o sefydliadau, yn fawr ac yn fach. Mae costau casglu gwastraff yn debygol o gynyddu i bob busnes, waeth beth fo'i faint, sy'n faich ychwanegol yn yr hinsawdd economaidd bresennol.
- Nodwyd yr heriau sy'n gysylltiedig â chasglu gwastraff ac ailgylchu mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft yn y canolbarth, gan nad ydynt o bosibl yn cynhyrchu digon o dunelli i wneud y gwaith o storio, bwndelu a throsglwyddo ymlaen yn ariannol hyfyw i gwmnïau rheoli gwastraff. Efallai y bydd angen newidiadau i ofynion trwyddedau safle a allai fod yn gostus, oherwydd bod yn rhaid storio deunydd am gyfnodau hwy ac efallai y bydd angen systemau casglu amgen neu gasglu â chymhorthdal mewn ardaloedd gwledig. Cynigiwyd y dylai'r prawf TEEP (ymarferol yn dechnegol, yn amgylcheddol neu'n economaidd) fod yn berthnasol mewn ardaloedd gwledig.
- Roedd pryderon y gallai'r cod effeithio ar sefydliadau trydydd sector sy'n ymwneud ag ailddosbarthu bwyd, ac y gallai achosi problem o ran cyfyngu adnoddau mewn achosion lle mae angen gwahanu bwyd oddi wrth ddeunydd pecynnu, er enghraifft paled o sawsiau wedi'u potelu na ellir eu defnyddio.
- Mae'n bosibl y bydd mwy o dagfeydd ar y ffyrdd, yn enwedig yng nghanol trefi, wedi'i achosi gan ofynion ychwanegol o ran cerbydau a'r posibilrwydd hefyd y bydd mwy o finiau neu eitemau ailgylchu mawr yn cael eu gadael ar y briffordd i'w casglu, gan achosi rhwystrau, a risgiau iechyd a diogelwch, a hefyd mewn achosion lle gallai halogi olygu peidio â chasglu eitemau neu finiau llawn.

- Pryderon y gallai biniau ailgylchu cyhoeddus fod wedi'u halogi'n hawdd ac nad ydynt yn cydymffurfio â'r cod arfaethedig.

Cwmpas

- Awgrymwyd y dylai fod yn orfodol darparu gwybodaeth am gyrchfan deunyddiau sydd wedi'u didoli i'w hailgylchu drwy'r rheoliadau arfaethedig.
- Caeadau plastig o gartonau diodydd; a yw'r rhain o fewn cwmpas y rheoliadau a sut dylid eu trin.
- Cynigiwyd y dylai fferyllfeydd a sefydliadau clinigol a gofal iechyd eraill yn elwa o gael cyflwyniad wedi'i oedi i'r gofynion gwahanu (fel y'i cynigir ar gyfer ysbytai) oherwydd cyfyngiadau amser a lle, a'r pwysau presennol ar y gwasanaeth iechyd.
- Gofynnodd un bwrdd iechyd i'r rheoliadau gael eu rhoi ar waith fesul cam, gydag oedi yn y gofynion ar gyfer gwahanu bwyd am ddwy flynedd. Gofynnwyd hefyd am ariannu astudiaeth effaith/dichonoldeb i edrych ar effeithiau'r rheoliadau/cod ar ysbytai o safbwynt cost a safbwynt gweithrediadol. Pwysleisiodd bwrdd iechyd arall y goblygiadau cost tebygol o ran staffio i weithredu a rheoli systemau newydd, cost caffael biniau, hyfforddi staff, manau storio newydd, mwy o gasgliadau, cyfyngiadau o ran gofod yn fewnol ac yn allanol.
- Un ymholiad arall a nodwyd oedd a fyddai'n bosibl o fewn cwmpas y rheoliadau i fwrdd iechyd ddelio â chyfyngiadau gofod drwy wahanu ei wastraff ei hun ar safle penodol cyn ei gasglu gan gontractwr gwastraff.
- Gofynnir am eglurhad ynghylch y rhwymedigaeth ar Awdurdodau Lleol i ddarparu casgliadau ar wahân neu i 'drefnu casgliadau' er mwyn cydymffurfio â'r cod, gan fod y cod yn sôn am opsiynau i is-gontractio gwasanaethau.
- Roedd un ymatebydd o'r farn bod cynnwys manau addoli, siopau elusen, a manau a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn y cod yn groes i Reoliadau Gwastraff a Reolir 2012.
- Roedd un Gymdeithas Fasnach yn bryderus nad yw potiau planhigion polypropylen yn cael eu cynnwys yn y rhestr o ffractsiynau gwastraff y gellir eu hailgylchu. Gellir ailgylchu'r rhain os nad ydynt yn cynnwys pigment du. Mae modd ailgylchu potiau planhigion polypropylen llwytfrown (*taupe*) hefyd, ond nid yw Awdurdodau Lleol a chwmnïau rheoli gwastraff yn derbyn y rhain yn gyffredinol. Dylid ystyried cynnwys y ddau fath hyn o bot planhigion yn y ffrwd ailgylchu annomestig (a domestig). Sefydlodd y Gymdeithas Fasnach gynllun yn 2018 i gasglu plastigau gan ei haelodau i'w hailddefnyddio a'u hailgylchu, ond mae llawer iawn o'r plastig hwn o hyd yn mynd i'r ffrwd weddilliol.
- Gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd – tynnwyd sylw at y ffaith nad yw'r cod yn cynnwys trapiau saim, y gallai eu cynnwys yn y rheoliadau fod o fudd o ran cael gwared â rhwystrau mewn carthffosydd.

Amserlenni ac Esemptiadau

Dywedodd nifer o ymatebwyr nad oes digon o amser i baratoi ar gyfer rhoi'r rheoliadau ar waith ym mis Hydref 2023.

- Tynnodd nifer o Awdurdodau Lleol sylw at y ffaith bod yn rhaid iddynt gynllunio ar gyfer prynu cerbydau newydd (sydd efallai ag amser arwain o ddwy flynedd ar eu cyfer), cynwysyddion, newidiadau i gontractau, newidiadau i gyfleusterau didoli a newidiadau cysylltiedig i amodau trwyddedau, adolygiadau o rowndiau casglu a threfniadau storio, cyfathrebu â safleoedd busnes ynghylch y trefniadau casglu newydd ac ymgorffori newidiadau i gynlluniau cyllideb. Tynnodd cwmnïau rheoli gwastraff sylw at broblemau tebyg gydag amseroedd arwain prynu cerbydau a chynhwysyddion a newidiadau i gyfleusterau didoli ac amodau trwyddedau. Dywedodd un cwmni bod angen ystyried polisiau dibrisiant yn y broses cynllunio seilwaith. Cyfeiriodd y busnesau a ymatebodd at yr amser sydd ei angen i ail-dendro contractau casglu gwastraff yn ogystal â darparu hyfforddiant i staff.
- Yn ogystal, tynnodd nifer o Awdurdodau Lleol sylw at bryder ynghylch sut y bydd y sector preifat yn ymateb i'r rheoliadau newydd, ac awgrymodd un awdurdod y gallai'r sector preifat fod yn amharod i gynnig gwasanaethau i fusnesau gwledig, ac os felly efallai y bydd angen i Awdurdodau Lleol ddarparu gwasanaethau, sy'n ei gwneud yn anodd cynllunio. Mae'n bosibl hefyd na fydd y sector preifat yn casglu ffrydiau gwastraff nad oes gwerth sylweddol iddynt, gan adael i Awdurdodau Lleol ddarparu'r gwasanaethau hyn.
- Gofynnodd un brifysgol am esemptiad o'r rheoliadau am 2 flynedd, fel sydd wedi'i roi i ysbytai, oherwydd cymhlethdod ystadau prifysgolion, amrywiaeth o fannau gwahanol, nifer y defnyddwyr. Mae un brifysgol ar hyn o bryd mewn trefniant consortiwm gyda Bwrdd Iechyd Cymru Gyfan ar gyfer rheoli gwastraff. Nid yw'r Gronfa Economi Gylchol bellach ar agor ar gyfer rowndiau cyllido pellach a gofynnir i'r gronfa gael ei hailagor. Gallai'r cyllid gefnogi'r newidiadau angenrheidiol i'r seilwaith yn y Brifysgol er mwyn darparu biniau ychwanegol, manau storio a staff cydlynu.

Canllawiau/Gwybodaeth Ychwanegol

- Byddai canllawiau arbenigol ar gyfer y gwasanaeth gofal yn fuddiol er mwyn gallu dehongli'r rheoliadau'n gywir, yn enwedig ynghylch a yw rhai lleoliadau gofal yn dod o fewn cwrpas y canllawiau ai peidio – er enghraifft, pa rai fyddai'n cael eu diffinio fel rhai annomestig at ddibenion y rheoliadau.
- Mynegodd Un Gymdeithas Fasnach bryder bod amrywiaeth yn y rheolau ailgylchu ledled y DU a bod hyn yn rhoi baich diangen ar fusnesau sy'n gweithredu mewn sawl lleoliad yn y DU.
- Gan gydnabod bod y cod yn canolbwyntio ar ailgylchu, nododd un sefydliad y mater o egluro bod ailddefnyddio ac atgyweirio hefyd yn opsiynau pwysig yn yr hierarchaeth gwastraff, ac y dylid tynnu sylw ato'n amlach.
- Dylid cynnwys canllawiau ychwanegol ar sut i aiddosbarthu gwastraff bwyd yn y canllawiau fel y gellir ei annog. Dylai'r cod hefyd gynnwys gofyniad gwirfoddol i'r holl decstilau a sWEEE annomestig gael eu gwahanu, ac nid

dim ond canolbwyntio ar decstilau heb eu gwerthu a sWEEE heb ei werthu. Byddai hyn yn annog newid yn y diwydiant ac yn caniatáu datblygu'r seilwaith ailbrosesu angenrheidiol.

- Nododd Cymdeithas Fasnach fod dryswch o hyd ymysg llawer o fusnesau ynghylch gofynion a chwmpas y rheoliadau a beth sydd dan sylw. Gofynnwyd am ymgyrch gyfathrebu eang fydd yn ymdrin â'r gofynion, amserlenni a chyfeirio at ffynonellau gwybodaeth.

Gorfodaeth, Cyllid, Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- Gofynnir am ddull gweithredu fesul cam ar gyfer gorfodi'r rheoliadau gyda chyfnod gras ar gyfer cydymffurfio lle nad yw dirwyon yn cael eu casglu na'u rhoi o'r dyddiad gweithredu cychwynnol. Cafodd 6 mis a 12 mis eu hawgrymu gan wahanol ymatebwyr.
- Mae gan Awdurdodau Lleol rôl newydd o ran gorfodi'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd, a gofynnodd sawl awdurdod a fydd cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer y swyddogaeth newydd hon. Tynnwyd sylw hefyd at yr effaith o ran amser ar gyfer ymweliadau arolygu i ymdrin â'r gofyniad newydd hwn. Efallai y bydd rhai busnesau hefyd yn anfodlon neu'n methu â fforddio cael gwared ar beiriannau malu sy'n golygu amser i'r Awdurdod Lleol ddelio â'r agwedd hon.
- Tynnodd nifer o Awdurdodau Lleol sylw at y ffaith bod y modelu sylfaenol ar gyfer gwastraff bwyd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i gwblhau yn 2019, ac awgrymodd nad yw'r ffigurau'n adlewyrchu'r hinsawdd economaidd bresennol ac y dylid ailedrych arnynt. Ar sail profiad timau Iechyd yr Amgylchedd, nodir hefyd nad yw'r tybiaethau ynghylch defnyddio peiriannau malu, sychu a threulwyr ensymau yn adlewyrchu'r arferion presennol, (mae nifer y busnesau sy'n defnyddio pob math o dechnoleg trin bwyd yn is o lawer), ac awgrymir bod yr amcangyfrifon o wastraff bwyd sy'n cael ei waredu ar hyn o bryd i garthffos yn rhy uchel.
- Dywedodd nifer o gwmnïau rheoli gwastraff nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ystyried effaith cyflwyno cynllun dychwelyd ernes a thynnu deunyddiau gwerth uchel o'r ffrwd deunydd ailgylchu (alwminiwm a chynwysyddion plastig polyethylen tereffthalad (PET)) a bod y ffrydiau incwm yn cael eu goramcangyfrif a bod y costau'n cael eu tanamcangyfrif yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- Nododd un ymatebydd fod angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y cod ar hyn o bryd. Ni fydd y cynllun i gyhoeddi hyn adeg gosod y rheoliadau yn caniatáu amser i wneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol.
- Gofynnwyd am dystiolaeth bod casgliadau ailgylchu cymysg sych yn arwain at ailgylchu o ansawdd isel, yn ogystal â thystiolaeth na fydd mwy o deithiau i gerbydau o ganlyniad i'r rheoliadau.
- Gofynnodd un ymatebydd, gan fod sWEEE yn rhan o'r rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff, a fydd sWEEE hefyd yn cael ei drin fel rhan o gydymffurfio â'r rheoliadau hyn?

- Nododd nifer o gwmnïau rheoli gwastraff y dylid ystyried symudiadau trawsffiniol gan fusnesau masnachol, ynghyd â sut y dylid ymdrin â gofynion sy'n gwrthdaro rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Effeithiau Amgylcheddol

- Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw Adnodd Adrodd y Llywodraeth ar gyfer ffigurau carbon blynyddol yn dangos budd carbon ar gyfer ailgylchu gwastraff yn hytrach na'i anfon at Ynni o Wastraff. Mae'r ffactorau carbon a ddefnyddir ar gyfer y ddau weithgaredd yr un fath.

Arall

- Mynegwyd pryder gan un Awdurdod Lleol y gallai rhai cwmnïau rheoli gwastraff barhau i ddarparu gwasanaeth DMR ar ôl i'r rheoliadau gael eu rhoi ar waith ac efallai na fydd cwsmeriaid busnes yn gwybod am y rhwymedigaethau ac yn parhau i gaffael y gwasanaethau hyn neu'n teimlo eu bod wedi'u clymu i gontractau sy'n ymestyn y tu hwnt i gyfnod gorfodi'r gofynion newydd.
- Cynigiodd Cymdeithas Fasnach y gellid rhoi hwb i lefelau ailgylchu deunydd pecynnu tebyg i gartrefi drwy drosglwyddo'r costau i fusnesau bach i gynhyrchwyr. Mae busnesau bach yn fwy tebygol o gynhyrchu deunydd pecynnu tebyg i gartrefi a symiau bach o becynnau masnachol a diwydiannol, ac y bydd casglu hynny yn debygol o fod yn gostus i fusnesau. Nodwyd hefyd gan yr un Gymdeithas Fasnach bod y cod yn cyfeirio at egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' o ran talu am gasglu gwastraff, ac nad yw'n gyson â chynlluniau EPR tymor hir Llywodraeth Cymru/Defra ar gyfer gwastraff pecynnau busnes.
- Mynegwyd pryder gan un Gymdeithas Fasnach ynghylch y diffyg seilwaith ailbroseu sydd yn ei le ar gyfer yr holl ffrydiau gwastraff sydd i'w gwahanu, a'r angen i rai mathau o wastraff gael eu hailbroseu mewn rhannau eraill o'r DU a thramor. Byddai capasiti lleol ar gyfer yr holl ffrydiau gwastraff yn ddelfrydol ac yn cadw'r gwerth economaidd yng Nghymru, ac mae angen y buddsoddiad angenrheidiol i gefnogi hyn.

Cwestiwn 15: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r rheoliadau ailgylchu ar gyfer busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai effeithiau hynny yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Cafodd yr ymgynghoriad 29 ymateb i'r cwestiwn hwn (tua un rhan o dair o'r ymatebwyr).

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf (79%) o'r ymatebwyr yn teimlo na fyddai unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg. Nododd nifer y gofyniad i'r

ddeddfwriaeth a'r cyfathrebu cysylltiedig fod yn Gymraeg ac yn Saesneg, gydag un ymatebydd yn pwysleisio pwysigrwydd bod y cyfieithiadau Cymraeg yn glir iawn ar gyfer agweddau technegol y rheoliadau.

Roedd dau ymatebydd o'r farn y gallai fod effaith gadarnhaol o ran creu cyfle i siarad â chwsmeriaid yn Gymraeg.

Roedd un ymatebydd o'r farn bod ystyried/cynnwys ieithoedd eraill (fel Pwyleg, Mandarin a Thyrceg) yn ddymunol fel bod y rheoliadau'n cael eu deall yn eang.

Cwestiwn 16: Eglurwch hefyd sut rydych yn credu y gellid ffurfio neu newid y rheoliadau arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, heb ddim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Cafodd yr ymgynghoriad 19 ymateb i'r cwestiwn hwn (tua un rhan o bump o'r ymatebwyr).

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf (68%) yn teimlo na fyddai unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg. Nododd nifer y gofyniad i'r ddeddfwriaeth a'r cyfathrebu cysylltiedig fod yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda nifer o ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd bod y cyfieithiadau Cymraeg yn glir iawn ar gyfer agweddau technegol y rheoliadau.

Roedd dau ymatebydd o'r farn bod ystyried/cynnwys ieithoedd eraill (fel Pwyleg, Mandarin a Thyrceg) yn ddymunol fel bod y rheoliadau'n cael eu deall ac y cydymffurfir â hwy.

Roedd tri ymatebydd yn pryderu y gallai'r rheoliadau, gael effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg, drwy gynyddu'r galw am gasglwyr yn y sector preifat, oherwydd efallai na fydd gan rai casglwyr preifat y gallu i ddelio ag ymholiadau yn Gymraeg, neu oherwydd eu bod yn delio â chasglwyr/broceraid y tu allan i Gymru.

4. Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud nesaf

Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth a'r cod ymarfer.

Mae'r ddeddfwriaeth a chod ymarfer terfynol, sy'n darparu canllawiau ymarferol ar sut i gydymffurfio â'r gofynion gwahanu, i gael eu cyflwyno gerbron y Senedd yn ystod hydref 2023 a'r bwriad yw i'r dyletswyddau ddod i rym ar 6 Ebrill 2024.

Byddwn yn cynnal ymgyrch genedlaethol yn y cyfryngau drwy gydol 2023 a 2024 i godi ymwybyddiaeth ymhellach o'r ddeddfwriaeth ar gyfer y rheini yr effeithir arnynt. Byddwn hefyd yn darparu adnoddau ymarferol i gefnogi safleoedd annomestig a'r sector gwastraff i baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth sy'n dod i rym, fel canllawiau arferion gorau ac astudiaethau achos ac arwyddion a phosteri y gellir eu llwytho i lawr.

Mae'r diwygiadau hyn yn rhan allweddol o sut rydym yn cyflawni ymrwymïadau ein Rhaglen Lywodraethu i adeiladu economi gryfach a gwyrddach yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol, yn ogystal â bod yn elfen hanfodol o weithredu i ddatgarboneiddio ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd a byd natur.

Atodiad 1: Rhestr o ymatebwyr

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys yr ymatebwyr hynny a ofynnodd am gadw eu hymateb yn gyfrinachol.

Nid yw ychwaith yn cynnwys yr ymatebwyr hynny nad oeddent wedi ymateb yn benodol i'r cwestiwn hwn yn eu hymateb.

Enw	Math o Sefydliad
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Sefydliad sector cyhoeddus
Cefnysuran farm holidays	Busnes
Cyngor Abertawe	Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol
Williams a Williams cyf	Cwmni rheoli gwastraff
Distinction Windows Ltd	Busnes
Browns Waste Management and Recycling Ltd	Cwmni rheoli gwastraff
East Park Care Centre	Busnes
Cyngor Abertawe	Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol
Brechfa Country House Ltd	Busnes
Iris Prize Outreach	Sefydliad trydydd sector
The Gamers' Emporium	Busnes
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol
British Plastics Federation	Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)
AVA: The Vending & Automated Retail Association	Sefydliad sector cyhoeddus
FareShare Cymru	Sefydliad trydydd sector
Foodservice Packaging Association	Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)
Neuadd Albert	Sefydliad trydydd sector
Pitton Cross Caravan Park	Busnes
Benders Paper Cups	Busnes
LARAC – Pwyllgor Cynghori ar Ailgylchu Awdurdodau Lleol	Sefydliad sector cyhoeddus
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	Sefydliad sector cyhoeddus
Trafnidiaeth Cymru	Sefydliad sector cyhoeddus
Cyngor y Diwydiant Pecynnu a'r Amgylchedd	Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)
Sinclair Group	Busnes
ASH Waste Services Ltd	Cwmni rheoli gwastraff
LAS Recycling Ltd	Busnes
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Sefydliad sector cyhoeddus
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru	Sefydliad sector cyhoeddus
Comisiwn Bevan	Sefydliad trydydd sector
Biffa	Cwmni rheoli gwastraff

United Resource Operators Consortium (UROC)	Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)
Fferylliaeth Gymunedol Cymru	Sefydliad sector cyhoeddus
ACE UK	Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)
Association of Convenience Stores	Sefydliad trydydd sector
Advetec Holdings UK Limited	Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)
British Holiday and Home Park Association (BH&HPA)	Busnes
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol
Fforwm Gofal Cymru	Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)
Clarach Bay Services Ltd	Cwmni rheoli gwastraff
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol
SUEZ Recycling and Recovery UK Ltd	Cwmni rheoli gwastraff
Iechyd Amgylcheddol Cymru	Sefydliad sector cyhoeddus
Cyngor Sir y Fflint – Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd	Sefydliad sector cyhoeddus
Ffederasiwn y Busnesau Bach (Cymru)	Sefydliad trydydd sector
Cyngor Dinas Casnewydd	Sefydliad sector cyhoeddus
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru	Sefydliad sector cyhoeddus
Cytûn (Eglwysi gyda'i gilydd yng Nghymru)	Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)
DS Smith	Cwmni rheoli gwastraff
Confederation of Paper Industries	Dim un o'r uchod (rhowch fanylion)